Senedd Cymru
**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Adroddiad gwrandawiad cyn penodi

## Yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Comisiynydd Plant Cymru

Rhagfyr 2021

www.senedd.cymru

# 1. Cyflwyniad

## Gwrandawiadau cyn penodi

**1.** Gellir cynnal gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer penodiadau cyhoeddus proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus. Fe'u cynhelir ar ôl i banel recriwtio nodi ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd, ond cyn i'r penodiad gael ei ffurfioli. Mae'r gwrandawiadau'n rhoi cyfle i bwyllgor graffu ar yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd, yna cefnogi penodiad neu fynegi pryderon yn ei gylch cyn penodi'r ymgeisydd a ffefrir. Yn y Senedd, fe'u cyflawnir yn gyhoeddus gan bwyllgor y mae ei gylch gwaith yn cynnwys gwaith deiliad y swydd.

**2.** Mae nifer o benodiadau cyhoeddus a all fod[1] yn destun gwrandawiadau cyn penodi yn y Senedd. O'r rheini, mae'r Senedd yn gwneud y penodiad terfynol ar gyfer rhai, mae'r Frenhines yn gwneud rhai (yn dilyn proses recriwtio dan arweiniad y Senedd), ac mae Llywodraeth Cymru yn gwneud eraill. Gelwir penodiadau cyhoeddus a wneir gan Lywodraeth Cymru yn 'benodiadau gweinidogol'.

**3.** Mae rhestr o'r penodiadau gweinidogol a all fod yn destun gwrandawiadau cyn penodi wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Mae Comisiynydd Plant Cymru ("y Comisiynydd") wedi'i gynnwys ar y rhestr honno, er mai dyma'r tro cyntaf i un o bwyllgorau'r Senedd gynnal gwrandawiad cyn penodi ar gyfer y rôl benodol honno.

## Comisiynydd Plant Cymru

**4.** Sefydlwyd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, sef un o Ddeddfau Senedd y DU.[2] Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth gyflawni ei rôl.

**5.** Mae cylch gwaith y Comisiynydd yn cynnwys pwerau datganoledig y Senedd sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc hyd at 18 oed sy'n byw (neu'n byw fel arfer) yng Nghymru, pobl ifanc hyd at 21 oed os ydynt wedi bod mewn gofal o'r blaen, a phobl ifanc hyd at 25 oed os ydynt wedi bod mewn gofal o'r blaen ac yn dal i fod mewn addysg.

**6.** Nodir pwerau'r Comisiynydd isod.

---

[1] Mater i bwyllgor perthnasol y Senedd yw penderfynu a yw am gynnal gwrandawiad cyn recriwtio.

[2] Legislation.gov.uk, 'Deddf Safonau Gofal 2000', fel ar 29/11/21

> *"1) Pŵer i adolygu'r effaith a geir ar blant wrth i gyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ymarfer eu swyddogaethau neu fwriadu ymarfer eu swyddogaethau.*
>
> *2) Pŵer i adolygu a monitro pa mor effeithiol yw trefniadau cyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd ar gyfer cwynion, datgelu camarfer ac eiriolaeth, o safbwynt diogelu a hybu hawliau a lles plant.*
>
> *3) Pŵer i archwilio achosion yng nghyswllt plant unigol o dan amgylchiadau penodol.*
>
> *4) Pŵer i roi cymorth i blant o dan amgylchiadau penodol.*
>
> *5) Pŵer i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ar unrhyw faterion sy'n destun pryder iddi sy'n effeithio ar hawliau a lles plant ac nad oes ganddi bŵer i weithredu yn eu cylch.*
>
> *6) Nid oes gan y Comisiynydd bŵer i weithredu mewn nifer o amgylchiadau a ddiffiniwyd: - Materion sydd heb eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys mewnfudo a lloches, tlodi plant, cyfiawnder a phlismona, a phlant yn y lluoedd arfog.* - Lle gall CAFCASS (Gwasanaeth Ymgynghorol Plant a'r Llysoedd) weithredu. - Lle mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau yng nghyswllt achosion teulu. - Ni chaiff ymchwilio i unrhyw fater neu adrodd arno os yw neu os bu'n destun achos cyfreithiol."[3]

**7.** Mae swyddfa'r Comisiynydd yn cyflogi 26 o bobl fel ar 31 Mawrth 2021.[4] Cyfanswm gwariant y swyddfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 oedd £1.7 miliwn.[5]

**8.** Mae'r broses benodi ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru wedi'i nodi yn Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000 fel y'i diwygiwyd.[6] Penodir y Comisiynydd gan y Prif Weinidog ar ôl ystyried barn "plant perthnasol ynghylch unrhyw ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld ar gyfer y penodiad" a "c[h]yngor unrhyw banel dewis, a sefydlwyd er mwyn cyfweld ymgeiswyr"

---

[3] Comisiynydd Plant Cymru, 'Papur Pwerau Comisiynydd Plant Cymru', fel ar 01/12/21

[4] Comisiynydd Plant Cymru, 'Adroddiad Blynyddol 2020-21', tudalen 118, fel ar 01/12/21

[5] Comisiynydd Plant Cymru, 'Cyfrifon 2020-21', tudalen 39, fel ar 01/12/21

[6] Legislation.gov.uk, 'Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000', a ddiwygiwyd gan 'Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) (Diwygio) 2007', fel ar 29/11/21

(y cyfeirir ato fel y "panel trawsbleidiol" yn yr adran ganlynol). Saith mlynedd yw tymor swydd y Comisiynydd.

**9.** Sally Holland yw deiliad cyfredol y swydd. Fe'i penodwyd ym mis Ebrill 2015, ac mae ei deiliadaeth saith mlynedd yn dod i ben ym mis Ebrill 2022.

# 2. Y broses recriwtio

**10.** Cyn i'r swydd gael ei hysbysebu, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau weithdy gyda phlant a phobl ifanc i ofyn am eu barn ar dair nodwedd bwysicaf Comisiynydd Plant nesaf Cymru. Nodwyd y canlynol:

1. Natur ddeallgar
2. Y gallu i gynrychioli pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru a sefyll dros eu hawliau
3. Sgiliau cyfathrebu a gwrando rhagorol

**11.** Hysbysebwyd y swydd am dair wythnos, rhwng 7 a 28 Mehefin 2021. Rhoddwyd pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, a oedd yn cynnwys canllawiau ar sut i wneud cais, yr amserlen recriwtio, gwybodaeth am y broses recriwtio (gan gynnwys y gallai fod gwrandawiad cyn penodi), cefndir i'r rôl, disgrifiad o'r rôl (gweler Atodiad A) ), manyleb y person (gweler Atodiad B) a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r rôl.

**12.** Hysbysebwyd y swydd wag drwy'r asiantaeth farchnata Golley Slater. Fe'i hysbysebwyd ar-lein yn y cyhoeddiadau a ganlyn:

- The Guardian
- Children and Young People Now
- Community Care
- Fish4Jobs
- Y llwyfan ar-lein ar gyfer The Western Mail a'r Daily Post
- Diversity Jobsite Network
- Golwg

- Baner Y Cymro

**13.** Ymgymerwyd â hysbysebion ychwanegol wedi'u targedu:

- gyda sefydliadau'r sector plant;
- gyda sefydliadau cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- drwy gylchlythyrau Swyddfa'r Comisiynydd Plant a Plant yng Nghymru;
- drwy Dysg, cylchlythyr addysg a hyfforddiant Llywodraeth Cymru; a
- thrwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Hawliau Plant Cymru.

**14.** Roedd ymgeiswyr yn gwneud cais drwy wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd iddynt lenwi ffurflen gais a llwytho dau ddatganiad personol (un wedi'i ysgrifennu ar gyfer plant a phobl ifanc, ac un wedi'i ysgrifennu ar gyfer oedolion) a CV. Daeth 27 o geisiadau i law. Aeth y broses recriwtio yn ei blaen fel a ganlyn.

**Cam sifftio cyntaf:** Ystyriodd panel o swyddogion Llywodraeth Cymru[7] y 27 o geisiadau ac argymhellwyd y dylid mynd ag 11 ymgeisydd ymlaen i'r cam recriwtio nesaf.

**Graddio gan blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed:** Graddiodd grŵp o blant a phobl ifanc ddatganiadau personol yr 11 ymgeisydd.

**Ail gam sifftio:** Cadeiriodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol banel trawsbleidiol i sifftio ceisiadau gan yr 11 ymgeisydd. Argymhellodd y panel y dylid mynd â chwe ymgeisydd ymlaen i gam nesaf y broses recriwtio. Roedd y panel yn cynnwys y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (Cadeirydd); Siân Gwenllian, AS; Laura Ann Jones, AS; Jane Dodds, AS; Ruth Marks, Uwch-aelod o'r Panel Annibynnol; a Claire Bennett, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi (fel arsyllwr).

**Cyflwyniadau i blant ysgol:** Gwnaeth y chwe ymgeisydd ar y rhestr fer gyflwyniad i ddosbarth o blant ysgol ym mlwyddyn chwech, ac atebwyd cwestiynau ganddynt. Ffilmiwyd y cyflwyniadau a'r sesiynau holi ac ateb, a'u darparu i banel y bobl ifanc ac i'r panel trawsbleidiol. Tynnodd un ymgeisydd yn ôl ar y cam hwn.

[7] Roedd y panel yn cynnwys: Claire Bennett, Cyfarwyddwr yr Is-adran Cymunedau a Threchu Tlodi (Cadeirydd); Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg; Karen Cornish, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Adran Plant a Theuluoedd; Rhys Davies, Pennaeth y Gangen Plant; a Ruth Marks, Uwch-aelod o'r Panel Annibynnol.

**Cyfweliad â'r panel pobl ifanc:** Cafodd y pum ymgeisydd arall eu cyfweld gan y panel pobl ifanc, a gyflwynodd sgoriau ac adborth ar berfformiad yr ymgeiswyr i'r panel trawsbleidiol. Cytunodd y panel pobl ifanc fod tri ymgeisydd y gellir eu penodi.

**Cyfweliad â'r panel trawsbleidiol:** Cafodd y pum ymgeisydd arall eu cyfweld gan y panel trawsbleidiol. Ystyriwyd yr ystod o adborth gan y plant a'r bobl ifanc, y cyflwyniadau ysgol a'r adborth gan y panel pobl ifanc cyn gwneud ei argymhelliad ar gyfer yr ymgeisydd terfynol. Cytunodd y panel trawsbleidiol fod tri ymgeisydd y gellir eu penodi (yr un tri â'r panel pobl ifanc). Ar ran y panel, argymhellodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i'r Prif Weinidog y dylid penodi un o'r ymgeiswyr hynny, Rocio Cifuentes, yn amodol ar wrandawiad cyn penodi llwyddiannus gyda'r Pwyllgor.

# 3. Yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru: Rocio Cifuentes

**15.** Ar hyn o bryd Rocio Cifuentes yw prif weithredwr y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, rôl y mae wedi bod ynddi ers mis Medi 2007. Mae'n aelod o Bwyllgor Cymru y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn Gadeirydd Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, yn ymddiriedolwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac yn ymddiriedolwr Mixtup Swansea (clwb ieuenctid i bobl ifanc 11-25 oed). Mae ei phrofiad proffesiynol blaenorol yn cynnwys swyddi yn y Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol Lleiafrifoedd Ethnig, a Phrifysgol Abertawe.

**16.** Daeth Ms Cifuentes a'i theulu i Gymru o Chile fel ffoaduriaid gwleidyddol pan oedd yn fabi. Cafodd ei magu yn Abertawe ac aeth ymlaen i Brifysgol Caergrawnt, lle astudiodd gwyddorau cymdeithasol a gwleidyddol.

# 4. Y gwrandawiad cyn penodi

## Cyn y gwrandawiad

**17.** Rhoddodd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru y canlynol i'r Pwyllgor cyn y gwrandawiad:

- Ffurflen gais Ms Cifuentes, ei CV, ei datganiad personol i oedolion, a'i datganiad personol i blant.

- Briff yn crynhoi'r broses recriwtio ac yn nodi data amrywiaeth y 27 o ymgeiswyr yn y cam gwneud cais, yr 11 a basiodd drwy'r cam sifftio cyntaf, a'r 6 a basiodd drwy'r ail gam sifftio.
- Copi o'r pecyn gwybodaeth a ddarparwyd i ymgeiswyr pan hysbysebwyd y swydd.

**18.** Dosbarthwyd y dogfennau hyn i aelodau'r Pwyllgor fel papurau preifat cyn y gwrandawiad.

**19.** Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i Ms Cifuentes lenwi holiadur byr cyn y gwrandawiad cyn penodi i ddarparu fframwaith ar gyfer cwestiynau aelodau'r Pwyllgor. Mae'r cwestiynau hyn, ac ymatebion Ms Cifuentes, wedi'u nodi yn Atodiad C.

**20.** Roedd Laura Ann Jones AS a Siân Gwenllian AS, aelodau’r Pwyllgor hwn, hefyd yn rhan o banel recriwtio trawsbleidiol Llywodraeth Cymru. Cytunodd y Cadeirydd a'r aelodau nad oedd yn briodol iddynt fynychu'r gwrandawiad cyn penodi, derbyn papurau cyfarfod yn ymwneud â'r gwrandawiad, na chymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth Pwyllgor preifat am y gwrandawiad. Roedd Sioned Williams AS yn dirprwyo ar ran Siân Gwenllian AS ar gyfer yr holl eitemau ar yr agenda yn ymwneud â'r gwrandawiad.

## Y gwrandawiad

**21.** Yn ystod y gwrandawiad, a barhaodd oddeutu awr, gofynnwyd ystod o gwestiynau i Ms Cifuentes ynghylch sut y mae'n bwriadu cyflawni rôl Comisiynydd Plant Cymru. Bwriad y rhain oedd archwilio ymhellach yr ymatebion a roddodd Ms Cifuentes i'r Pwyllgor yn ei hymateb ysgrifenedig i’r holiadur. Caiff rhai o’r meysydd trafod eu crynhoi isod. Mae trawsgrifiad llawn o'r gwrandawiad ar gael ar-lein.[8]

### Hawliau plant

**22.** Dywedodd Ms Cifuentes wrthym y byddai hawliau plant yn hollol sylfaenol i bopeth y bydd yn ei wneud, popeth y bydd yn sefyll drosto, popeth y bydd yn siarad amdano.[9] Awgrymodd fod iaith hawliau plant wedi dod yn rhan o'n geirfa yng Nghymru. Ei nod yw adeiladu ar waith ei rhagflaenydd wrth sicrhau bod plant o ystod o gefndiroedd yn deall eu hawliau, a bod eu hawliau'n cael eu cynnal.[10]

### Gweithio ledled Cymru gyfan

[8] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: 13/12/2021', fel ar 14/12/21

[9] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: 13/12/2021', paragraff 142, fel ar 14/12/21

[10] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: 13/12/2021', paragraffau 139-140, fel ar 14/12/21

**23.** Holwyd Ms Cifuentes ynghylch yr heriau y gallai eu hwynebu wrth gyflawni ei rôl ar draws ardaloedd daearyddol amrywiol Cymru. Eglurodd ei bod, yn ei rôl bresennol, wedi cael y cyfle i gwrdd â phlant, pobl ifanc, sefydliadau cymunedol a gweithio gydag awdurdodau lleol ledled y wlad. Mae hefyd wedi cynnal, neu gomisiynu, gwaith ymchwil yn seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu dealltwriaeth o realiti bywyd i blant a phobl ifanc yn y gwahanol leoliadau hynny. Cydnabu fod ei gwaith blaenorol gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches wedi'i dargedu'n bennaf mewn ardaloedd trefol. Pe bai'n cael ei phenodi'n Gomisiynydd Plant, byddai eisiau teithio i ardaloedd gwledig, trefi a dinasoedd llai i ddod i adnabod yr ardaloedd hynny yn well.[11]

## Mesur effaith ei gwaith

**24.** Nododd Ms Cifuentes y tair blaenoriaeth ar gyfer ei deiliadaeth yn ei hymateb ysgrifenedig i'r holiadur, a nodir yn Atodiad C. Gofynnwyd iddi sut y byddai'n mesur ei heffaith yn y meysydd hyn. Ar gyfer ei blaenoriaeth gyntaf, sef lleihau anghydraddoldebau a gwahaniaethu, eglurodd y gallai ddefnyddio data sy'n bodoli eisoes (megis data canlyniadau iechyd, cyfraddau mynd i addysg uwch/bellach, ac ati). Byddai angen iddi gymryd cyngor ar sut i fesur effaith ei gwaith mewn perthynas â'i hail flaenoriaeth, i ddiogelu a gwella amgylchedd naturiol plant. Fodd bynnag, byddai plant a phobl ifanc yn ganolog i'r broses honno. Dywedodd Ms Cifuentes y byddai'n mesur effaith ei gwaith yn ei thrydydd maes blaenoriaeth - sef gwella lles corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc - drwy ddefnyddio'r data presennol a thrwy ymgynghori'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc.[12]

## Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd

**25.** Pan gafodd ei holi sut y byddai'n ymgysylltu â phlant sy'n anodd eu cyrraedd, tynnodd Ms Cifuentes ar ei phrofiad yn gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac ar rôl wirfoddol yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Eglurodd y byddai'n estyn allan ac yn nodi grwpiau o bobl ifanc drwy'r trydydd sector llewyrchus yng Nghymru, drwy ysgolion, a thrwy leoliadau addysg ffurfiol eraill. Ond, ychwanegodd er mwyn cyrraedd y rhai mwyaf ymylol mewn gwirionedd nid oes dim fel mynd allan, mynd ar drên, a mynd i'r cymunedau hynny, treulio amser yn gwrando ar blant a phobl ifanc, a chael sgwrs. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"I think it's really important to have the integrity and commitment to actually act on what they tell you, because there's nothing worse than engaging with*

---

[11] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: 13/12/2021', paragraffau 145-147, fel ar 14/12/21

[12] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: 13/12/2021', paragraffau 156-158, fel ar 14/12/21

> *anyone […] there's nothing worse than then going away and doing nothing with that"*[13]

## Y materion o ddydd i ddydd sy'n wynebu plant a phobl ifanc

**26.** Holwyd Ms Cifuentes sut y byddai'n mynd i'r afael â materion a all effeithio ar rai plant a phobl ifanc o ddydd i ddydd, megis rhywioli plant, diffyg cyfleoedd gwaith, camddefnyddio cyffuriau ac effaith y cyfryngau cymdeithasol. Eglurodd Ms Cifuentes, ar wahân i'w phrofiad proffesiynol, ei bod wedi cael profiad o gael ei magu yng Nghymru. Nododd fod gan Gymru gyfraddau tlodi a diweithdra sylweddol uwch na rhannau eraill o'r DU. Pwysleisiodd waith cadarnhaol y trydydd sector a sefydliadau statudol i gefnogi plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd yn teimlo y gellid gwneud mwy i uno'r gwasanaethau hynny ac yn aml mae dull digyswllt iawn wrth ddarparu'r gwasanaethau. Pwysleisiodd y byddai'n grymuso plant a phobl ifanc i ddatblygu eu datrysiadau eu hunain i rai o'r problemau hyn, a thrwy gydweithio y gellir sicrhau dull mwy cydgysylltiedig.[14]

## Annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru

**27.** Ariennir y Comisiynydd gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n atebol iddi. Holwyd Ms Cifuentes sut y byddai'n aros yn wirioneddol annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Nododd, er gwaethaf y trefniadau atebolrwydd cyfredol, fod Swyddfa'r Comisiynydd wedi gweithio'n annibynnol dros yr 20 mlynedd diwethaf. Er y gallai fod yn bryd adolygu'r trefniadau atebolrwydd eto, eglurodd Ms Cifuentes ei bod yn cael ei gyrru gan ei gwerthoedd ei hun, sef egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, ac felly byddai ei llinell atebolrwydd gyntaf i blant a phobl ifanc, nid i'r llywodraeth. Pwysleisiodd bwysigrwydd 'pwerau meddal' swyddfa'r Comisiynydd, ynghyd â'r pwerau cyfreithiol, i roi 'awdurdod moesol' i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Dywedodd mai gwneud hynny yw ei phrif gymhelliant a'i dyletswydd statudol.[15]

## Y Gymraeg

**28.** Ar hyn o bryd nid yw Ms Cifuentes yn siaradwr Cymraeg rhugl. Fe'i holwyd ynghylch gofyniad y rôl i ddysgu Cymraeg o fewn blwyddyn, a beth oedd ei dealltwriaeth o hawliau ac anghenion penodol plant sy'n siarad Cymraeg. Eglurodd Ms Cifuentes iddi gael ei magu yn ddwyieithog, a'i bod yn deall pwysigrwydd aml-ieithrwydd:

---

[13] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: 13/12/2021', paragraffau 164-165, fel ar 14/12/21

[14] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: 13/12/2021', paragraffau 178-180, fel ar 14/12/21

[15] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: 13/12/2021', paragraffau 183-186, fel ar 14/12/21

> *"Learning a language and being able to speak one's own mother tongue and expressing yourself in that language is crucial to maintaining and celebrating the culture, heritage and identity of a country."*[16]

Ychwanegodd Ms Cifuentes y dylid dathlu, diogelu, hyrwyddo a buddsoddi yn y Gymraeg mewn modd gweithredol. Byddai'n croesawu trafodaethau gyda Chomisiynydd y Gymraeg i weld sut y gallai eu gwahanol feysydd gwaith alinio.[17]

# 5. Barn y Pwyllgor

## Yr ymgeisydd

**29.** Nid yw'r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm i beidio â chymeradwyo penodiad Rocio Cifuentes i rôl Comisiynydd Plant Cymru.

**Conclusion 1.** Nid yw'r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm i beidio â chymeradwyo'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer swydd Comisiynydd Plant Cymru.

**30.** Fodd bynnag, rydym yn annog Ms Cifuentes a'i swyddfa i fyfyrio ar y canlynol wrth iddynt gynllunio a chyflawni eu gwaith dros y saith mlynedd nesaf.

- Sut y gall y Comisiynydd a'i swyddfa ymgysylltu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc ledled y wlad, gan gynnwys yn yr ardaloedd daearyddol hynny y gallai fod angen i'r Comisiynydd adeiladu rhwydweithiau proffesiynol newydd ynddynt.
- Sut y gellir mesur a gwerthuso effaith gwaith Swyddfa'r Comisiynydd, yn enwedig pan fo'r gwaith hwnnw'n ymwneud â phroblemau sydd mor gymhleth ac amrywiol â newid hinsawdd.
- Sut y gall y Comisiynydd drosi ei huchelgeisiau lefel uchel yn gamau diriaethol, pendant a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant a phobl ifanc o ddydd i ddydd.
- Gwerth gwrando ar blant a phobl ifanc, hyd yn oed os nad yw'r Comisiynydd bob amser yn gallu gweithredu ar sail yr hyn y mae wedi'i glywed.

[16] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: 13/12/2021', paragraff 201, fel ar 14/12/21

[17] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: 13/12/2021', paragraff 202, fel ar 14/12/21

- Sut y gall Swyddfa'r Comisiynydd sicrhau bod ei gwaith yn cydnabod bod Cymru i gyd yn siarad Cymraeg, a'r heriau penodol sy'n wynebu plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg.

Byddwn yn cynnwys y meysydd hyn yn ein gwaith craffu yn y dyfodol ar Gomisiynydd Plant Cymru a'i swyddfa.

## Y broses recriwtio

**31.** Rydym yn cydnabod nad oes gan y Senedd rôl ffurfiol ar hyn o bryd yn y broses recriwtio i swydd Comisiynydd Plant Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod mai diben gwrandawiad cyn penodi yw craffu ar ymgeisydd am resymau tryloywder cyhoeddus, ac nid ailadrodd y broses gyfweld.

**32.** Fodd bynnag, mae'r broses graffu cyn penodi *yn* ei gwneud yn ofynnol inni lunio barn ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer y swydd hon. Rydym wedi ei chael yn heriol gwneud hynny'n ystyrlon heb chwarae mwy o ran yn y broses recriwtio a chael rhagor o wybodaeth am yr holl ymgeiswyr.

**33.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fyfyrio ar sut y gall gefnogi pwyllgorau'r Senedd yn llawnach i sicrhau gwaith craffu effeithiol cyn penodi ar benodiadau gweinidogol.

**Recommendation 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys pwyllgorau'r Senedd yn fwy ystyrlon yn y broses recriwtio sy'n gysylltiedig â phenodiadau gweinidogol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth ymgysylltu â'r Pwyllgor perthnasol ar ddechrau'r broses recriwtio. Yn dibynnu ar y swydd a barn y Pwyllgor perthnasol, gallai hyn gynnwys:

- Rhoi ffurflenni cais, CVs ac ati unrhyw ymgeiswyr ar y rhestr fer i aelodau'r Pwyllgor.
- Cynrychiolydd o'r panel recriwtio yn briffio'r Pwyllgor cyn y gwrandawiad cyn penodi i roi trosolwg o'r broses recriwtio, trafod yr holl ymgeiswyr ac ymateb i unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.
- Cynnwys y Pwyllgor yn fwy ffurfiol yn y broses recriwtio (e.e. gyda chynrychiolwyr y Pwyllgor yn arsyllwyr-aelodau o'r panel recriwtio).

**34.** Mae Comisiynydd Plant Cymru yn rôl hanfodol gydag effaith sylweddol ar blant, pobl ifanc a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dylai'r Senedd gael dylanwad gwirioneddol ar y broses recriwtio. Nodwn farn ein Pwyllgor blaenorol ar y mater hwn:

> *"Argymhelliad 16. Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r penderfyniad i beidio â throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros benodi, atebolrwydd ac ariannu Comisiynydd Plant Cymru i'r Senedd, a hynny ar y cyfle cyntaf i ddeddfu."*[18]

A barn Comisiynydd Plant cyfredol Cymru:

> *"This has been a call that I've made consistently during my time as commissioner, as did my predecessor, and I suspect my successor will as well. For me, it's just a fundamental principle, as much as anything […] I'm currently appointed and funded by a body that I have a statutory remit to scrutinise and to review […] I think that the appointment by the Senedd and funding by the Senedd would be a much more appropriate place for the commissioner to be."*[19]

Er nad ydym wedi gwneud unrhyw waith penodol ar y mater hwn, yn seiliedig ar gylch gwaith a chyfrifoldebau'r Comisiynydd ac ar ein profiad o'r broses gwrandawiad cyn penodi hon, rydym yn cytuno y dylai Comisiynydd Plant Cymru fod yn benodiad y Senedd.

**Recommendation 2.** Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros y penodiad i swydd Comisiynydd Plant Cymru i'r Senedd.

---

[18] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Hawliau plant yng Nghymru', Awst 2020, tudalen 121, fel ar 14/12/21

[19] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: 18/11/2021', paragraff 69, fel ar 14/12/21

# Atodiad A: Disgrifiad o rôl Comisiynydd Plant Cymru

Byddwch yn diogelu ac yn hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc hyd at 18 oed (hyd at 25 oed mewn rhai achosion) yng Nghymru. Dyma brif rôl y Comisiynydd, sydd wedi'i phennu mewn deddfwriaeth.

Byddwch yn ysbrydoli pobl i sicrhau gwell canlyniadau i holl blant a phobl ifanc Cymru ym mhob maes polisi, deddfwriaeth, penderfyniadau ac arferion sy’n effeithio ar eu bywydau yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol.

Byddwch yn parhau i ysgogi trafodaeth a dadl genedlaethol ynghylch cael cymdeithas sy’n parchu plant a phobl ifanc ac sy’n cydnabod gwerth gwirioneddol cynnig cyfleoedd iddynt y mae eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial unigol.

Byddwch yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc drwy sefydlu a chynnal partneriaethau cryf a pherthynas bwerus gyda phobl a sefydliadau.

Byddwch yn ystyried ac yn hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) – siarter ryngwladol sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer plant a phobl ifanc lle bynnag y maent yn byw. Mae CCUHP yn sail i holl waith y Comisiynydd.

Byddwch yn arwain y broses o ymgysylltu â chraffu ar y Llywodraeth a sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau ymatebol sy'n cael eu llywio gan syniadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc.

Byddwch yn cyflawni swyddogaeth endid corfforaethol ac yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y sefydliad, gan sicrhau bod dulliau monitro ac adolygu cyfrifyddu ariannol tryloyw yn cael eu gweithredu’n barhaus.

Byddwch yn arwain ac yn rheoli Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ac yn sicrhau ei fod yn parhau’n sefydliad ar gyfer Cymru gyfan sy’n gryf, hyderus a chydnerth ac sy’n gweithio’n effeithiol fel tîm, gyda strwythurau llywodraethu a busnes cadarn, i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth genedlaethol.

## Prif feysydd cyfrifoldeb Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

### Effeithiolrwydd Swyddfa'r Comisiynydd

- Datblygu a rhannu fel y bo'n briodol gweledigaeth strategol hirdymor a chynlluniau gwaith hirdymor y Comisiynydd a seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys sicrhau bod y sefydliad yn cynnal ac yn datblygu cynllun gwaith effeithiol i gyflawni ei gylch gwaith cyfreithiol.
- Gweithredu ar eich pen eich hun gydag uniondeb wrth gysylltu â chyrff a sefydliadau rheoledig, eu herio a'u cynghori.
- Sicrhau bod dulliau yn eu lle i wneud archwiliadau annibynnol o Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru sy'n cynnwys grŵp o gyfeillion beirniadol amrywiol i gynghori, cefnogi a herio'r Comisiynydd wrth gyflawni ei ddyletswyddau; a gweithio gyda Phwyllgorau perthnasol y Senedd i gynnal strwythur llywodraethu cadarn.
- Meithrin a chynnal diwylliant o berfformiad rhagorol a chanlyniadau o safon o fewn Tîm y Comisiynydd Plant, gan ystyried ffyrdd newydd o weithio a thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio gan gynnwys cefnogi timau gwasgaredig a'r rhai sy'n ymwneud â gwaith achos.
- Cynnal safonau uchel o allbynnau gan y sefydliad o ymatebion i ymgynghoriadau i adroddiadau.
- Cyflawni gofynion cyfreithiol Swyddfa'r Comisiynydd fel corff cyhoeddus, er enghraifft gofynion o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf yr Iaith Gymraeg.
- Meithrin a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r tîm noddi o fewn Llywodraeth Cymru.

## Datblygu polisi ac ymateb sy’n seiliedig ar arferion gorau

- Adolygu’r ffordd y mae Senedd Cymru, Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.
- Gwneud ymchwiliadau, llunio adroddiadau ar faterion penodol a chyflwyno adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru ynghylch gwaith Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ar faterion perthnasol sy’n effeithio ar blant a phobl ifanc.
- Sicrhau fod y Llywodraeth a Sefydliadau yng Nghymru yn ymdrechu’n barhaus i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc, a lle nodir heriau, gweithio gyda’r sefydliadau hynny i ganfod atebion.

- Dylanwadu ar ddatblygiad polisi cenedlaethol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a monitro'r fframwaith ac effeithiolrwydd gweithredu'r polisi.
- Ystyried a gwneud sylwadau i Senedd Cymru, y Senedd Ieuenctid a Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau neu les plant a phobl ifanc yng Nghymru.

## Cyfathrebu a gwella proffil hawliau plant ar y cyd

- Parhau i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant a Swyddfa'r Comisiynydd Plant mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys ymgysylltu'n rhagweithiol â phlant a phobl ifanc ar draws Cymru.
- Sicrhau presenoldeb amlwg parhaus ar-lein gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo delweddau positif o blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan herio delweddau negyddol pan fyddant yn codi.
- Datblygu a chynnal perthynas effeithiol â'r cyfryngau.

## Cyfranogi ac ymgysylltu

- Datblygu a chynnal dulliau creadigol a deniadol o sicrhau fod lleisiau a safbwyntiau plant a phobl ifanc yn llywio gwaith Swyddfa'r Comisiynydd a chynllun corfforaethol a chynllun gwaith blynyddol Comisiynydd Plant Cymru a'i Adroddiad Blynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- Ymrwymo i wrando ar blant a phobl ifanc, gan ddefnyddio eu profiadau, eu tystiolaeth a'u safbwyntiau i ysgogi gweithredu a newid, gan adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes.
- Creu a darparu cyfleoedd arloesol i bant a phobl ifanc allu lleisio'u barn a'u safbwyntiau i Gomisiynydd yn ogystal â phobl a sefydliadau eraill.

## Ymchwiliadau a chyngor

- Gweithredu fel ffynhonnell o gymorth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc (neu'r sawl sy'n gofalu amdanynt) sy'n credu neu'n canfod eu bod wedi cael eu trin mewn modd niweidiol, gan gynnwys achosion lle mae egwyddor ehangach yn y fantol.
- Defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei gasglu o ymchwiliadau, gwaith achos ac ystadegau llinellau cymorth yn bositif i ddylanwadu ar newid systemig.

## Gwaith partneriaeth

- Cynghori a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau statudol, preifat ac anstatudol.
- Gweithio gyda chyrff tebyg ynghylch materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr, i sicrhau bod plant a phobl ifanc penodol yn gallu cael mynediad effeithiol i'w gwasanaethau.
- Datblygu a chynnal cysylltiadau gwaith effeithiol gyda Chomisiynwyr Plant ac Ombwdsmyn yng ngwledydd eraill y DU a thramor, gan gynnwys rhannu gwybodaeth a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cysylltiadau ymysg sefydliadau plant ac ieuenctid.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar ei waith i fonitro gweithrediad CCUHP.

# Atodiad B: Manyleb y person ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru

I gael eich ystyried, rhaid gallu dangos bod y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad gennych i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol a nodir ar gyfer y swydd.

## Meini prawf hanfodol

Mae'r Prif Weinidog yn dymuno penodi unigolyn a all ddangos y canlynol:

- y gallu i ddangos profiad o ymgysylltu â chynrychioli safbwyntiau eraill, yn benodol arwain ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer unrhyw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a sefyll lan dros eu hawliau;
- natur ddeallgar a dealltwriaeth o'r heriau penodol o gynrychioli safbwyntiau plant a phobl ifanc;
- sylfaen wybodaeth gadarn ac ymrwymiad i hybu hawliau plant;
- sgiliau dylanwadu ardderchog, yn cynnwys y gallu i wrando, cyfathrebu ac ennyn hyder ymhlith amrywiaeth o randdeiliaid, o blant i bobl ifanc i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar y lefel uchaf un;
- y gallu i fynegi materion cymhleth yn syml a chlir a chyflwyno tystiolaeth mewn modd clir a symbylol;
- barn annibynnol a’r gallu i ddadansoddi problemau cymhleth yn gyflym a nodi atebion posibl;
- yr hyder a’r gallu i godi llais ynghylch materion sy’n cael effaith ar blant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys y cyfryngau, y Llywodraeth a Senedd Cymru;
- profiad o arwain sefydliad neu uned benodol o fewn sefydliad mwy, gan gynnwys rheoli ariannol a rheoli pobl;
- hunan gymhelliant a’r gallu i fod yn rhyngweithiol, penderfynol, positif a chydnerth;
- y brwdfrydedd i fod yn llysgennad effeithiol i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc;

- gonestrwydd, hygrededd a sensitifrwydd proffesiynol sy'n cynnal hyder ac ymddiriedaeth pawb; a
- gwybodaeth brofedig o'r hinsawdd wleidyddol yng Nghymru a'r sefyllfa ddeddfwriaethol o ran hawliau plant, a dealltwriaeth o sut y gall y Comisiynydd Plant weithredu'n effeithiol o fewn y cyd-destun hwn.

# Atodiad C: Holiadur wedi'i gwblhau a gafodd ei ddychwelyd gan Ms Cifuentes cyn y gwrandawiad cyn penodi

**Question 1: What is your motivation for applying to be the Children's Commissioner for Wales?**

My main motivation for applying for the role is my desire and drive to make Wales a more equal and fairer place, in particular for children growing up in Wales. I have been driven by a quest for social justice all my life, rooted in my own experience as someone who came to Wales as a baby with my parents seeking refuge from the brutal Pinochet dictatorship in Chile in the 1970's.

As a direct beneficiary of a benevolent human rights framework which was actually implemented in Wales, through its policies, its institutions and most importantly its people, I am firmly committed to making human rights a reality for everyone living in Wales. In particular for children, who have lost so much during the pandemic, and whose early life experiences are so pivotal to the rest of their lives.

My motivation also comes from the firm belief that I would be able to do the job well and deliver real changes for children and young people in Wales, based on my suitability as outlined below.

**Question 2: Why do you think you are well-suited for the role?**

I believe my suitability for the role comes from the significant experience, knowledge and skills which I have acquired during my 20 year career working with a diverse range of children and young people in Wales, as well as from my unique leadership style which combines a humanitarian kindness and empathy with a real can-do and get-things-done pragmatism.

For the last 20 years, I have devoted my career to supporting the most marginalised and disadvantaged children and young people working in a range of roles in Wales's third sector, including working with young people at risk of homeless, children with disabilities, and children from ethnic minority including refugee backgrounds. As such, I have seen up close the devastating impact that issues such as poor housing, poor access to services, poor health, and other factors have on children and young people living in Wales.

For the last 16 years I have been developing and leading the charity EYST Ethnic Minorities and Youth Support Team, starting it from scratch to now being the largest ethnic minority charity in Wales with a team of 70 staff working right across the country including Wrexham, Newport, Cardiff and Swansea, as well as mid Wales. I am immensely proud of this achievement, which is not only mine, but that of the whole team around me. As a result, thousands more children in Wales have a safe place to go, a trusted support worker to talk to, an organisation to advocate for them and stand up for their rights around the highest tables in Wales.

As well as these roles, I have also held other public roles including Wales Committee member of the Equality and Human Rights Commission since 2017, which has equipped me for the high standards and requirements of public life. As an individual I am mentally and physically robust and resilient, and feel well prepared for the increased pressure and scrutiny that the Children's Commissioner role will inevitably bring.

**Question 3: What are the three main outcomes that you want to achieve during your tenure?**

The three main outcomes that I would want to achieve are:

a. Child poverty, discrimination and inequality reduced
b. Children and young people's physical and mental health and wellbeing improved
c. Children and young people's natural environment protected and enhanced.

**Question 4: How will you work with children and young people?**

I will apply my experience, networks and skills to reach out to meet and listen to a wide range of children and young people right across Wales. I will make the time and effort to go to the places children and young people are in including schools and formal and informal youth settings. By utilising the diversity and reach of the voluntary sector in Wales, as well as the range of statutory organisations, I will ensure that I meet and engage with children and young people from diverse backgrounds and with a range of protected characteristics including those with disabilities, from different socio-economic backgrounds, English and Welsh speakers, and those who speak other community languages, in both urban and rural settings. I will make a special effort to reach and listen to those who have been most negatively impacted by the pandemic, for example those who have not been able to access education due to digital exclusion, or those who have experienced food poverty or mental ill health as a result of the pandemic.

When I meet children and young people, I will not seek to solve their problems for them, but rather will seek to help make them part of the solution, so they can be empowered to identify their own strengths and skills to forge their own successful paths to where they want to get to. I

will also seek to connect them with the excellent range of community and statutory organisations in their localities, to further empower local communities and put children and young people at their hearts.

Working with my wider team, I will be responsive to requests for my offices' intervention, and will use the Children's Commissioner's'  powers appropriately to help children enjoy their rights.

**Question 5: How will you work in a way that maintains independence from Welsh Government whilst also trying to influence the government to achieve significant change for children?**

Firstly, I would retain utmost clarity on my first line of accountability being to the children of Wales, and that the most significant part of my job would be listening to their concerns and needs, secondly, my role is to feed this back to Welsh Government as well as to other public bodies in Wales and seek to influence them to achieve change.  I would utilise the wishes and needs of children and young people to shape the changes I would be asking for, and would use the power of these voices and experiences to argue and press for change. I will remain open to challenge and scrutiny, particularly from children and young people, and will make full use of structures such as the Children and Young People's Advisory Commit

In order to maintain a relationship which can effectively challenge Welsh Government, I will seek to build strong support and allies outside of Welsh Government as well as within it. This will involve developing relationships of mutual trust and challenge with the range of stakeholders including Senedd Members, Senedd Committees, Voluntary sector organisations and other Commissioners in Wales.

I will also seek to maintain the strong links which the current Children's Commissioner has with legal advocates for children's rights in Wales, enabling proposals and challenges to be legally robust and coherently embedded within the existing Welsh and international children's' and human rights' legislative frameworks.

**Question 6: How will you work with Senedd Members, Senedd committees and other stakeholders?**

I will endeavour to work with Senedd Members, Senedd Committees and other stakeholders in an open and constructive way, clearly articulating the values and principles I will stand for, and remaining true to the views and needs of children and young people and my proposed solutions.

I will also seek to listen to and learn from the vast experience of Senedd Members, committees and other stakeholders as much as I can, to understand their own experiences, challenges and

priorities, as well as any assets, powers or resources they may have.  I will do this by giving the necessary time to building these relationships, holding one-to-one meetings and discussions, as well as taking part in wider events and networks. It is my firm belief that solutions can be arrived at once the position of all parties is well understood and areas of alignment identified so that will be my starting point. By doing this and showing the benefits of proposed ways forward I will seek to exert soft influence over strategic developments in Wales to bring out systematic improvements in the lives of children and young people.

I understand however, that there will be occasions when I will need to apply by powers more robustly as Children's Commissioner, especially when things have gone wrong for a child or young person, and an institution may have been responsible. In these circumstances, I will not hold back from making full use of the Commissioner's powers, as it will be my duty to do so.